

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD YNYS MÔN A GWYNEDD (2011 - 2026)

ARCHWILIAD CYHOEDDUS:

Sesiwn Gwrandawriad 6 - Amgylchedd Hanesyddol a Naturiol



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Pwynt Gweithredu 6 (S66/PG6) – Mapiau Chyfyngiadau

Ystyried sut mae'r wybodaeth ar y mapiau cyfyngiadau yn cael ei gyflwyno

Ymateb y Cyngorau:

Yn sgil yr holl wybodaeth sydd yn cael ei ddangos ar y Mapiau Cyfyngiadau a'r Mapiau Cynigion, mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r modd mae'r wybodaeth yn cael ei gyflwyno, a hynny'n benodol ar gyfer y fersiwn papur o'r ddogfen. Mae'r Cyngorau yn mynd i drefnu fod y Mapiau ar gyfer ardal y Cynllun yn cael eu rhannu i is-ardaloedd ychwanegol a fydd yn sicrhau bydd y wybodaeth yn fwy gweladwy arnynt oherwydd bydd graddfa'r mapiau yn fwy manwl. Yn ychwanegol, bydd arddull yr haenau, h.y. lliw a'r patrwm a ddefnyddir, yn cael ei fireinio. Bydd hyn yn sicrhau bydd copïau caled o'r Mapiau terfynol yn glir ac felly'n hawdd eu darllen. Fe fydd esiampl o'r isardaleodd a'r dull diwygiedig o gyflwyno'r mapiau yn cael eu cyflwyno i'r Arolygydd er mwyn ei archwilio mewn da bryd cyn i'r Archwiliad Cyhoeddus gau.